Claudia Williams (b1933)

Mae Claudia Williams yn artist sydd fwyaf enwog am baentio pobl. Mae nifer o'u lluniau'n rhai o bobl yn gwneud pethau cyffredin, dydd i ddydd. Mae thema'r teulu yn amlwg yn ei gwaith.

Ers yn ifanc, roedd hi wrth ei bodd gyda'r celfyddydau gan gynnwys cerddoriaeth ac fe enillodd ysgoloriaeth i Ysgol Gelf Chelsea yn un ar bymtheg oed. Wedi symud i Ynys Môn gyda'i gŵr, yr artist Gwilym Pritchard, a dechrau teulu, byddai'n aml yn paentio lluniau o'i theulu a bywyd domestig. Roedd y berthynas rhwng pobl yn ei chyfareddu ac er nad yw'r cymeriadau yn nifer o'i phaentiadau yn wyneb ei gilydd, mae'r thema yn un o fod 'gyda'n gilydd'. Bu'n byw yn Ffrainc am 15 mlynedd ac fe dderbyniodd y Fedal Arian gan Academi Celf, Gwyddoniaeth a Llythyrau Paris am ei chyfraniad i'r celfyddydau yn Ffrainc. Mae gan Oriel Môn ychydig o ddarnau o'i gwaith yn y casgliad a gellir gweld y paentiadau olew yma: https://artuk.org/discover/artworks/view_as/grid/search/makers:claudia-williams-b1933--collections:oriel-ynys-mon

Mae gwaith Claudia yn cael ei arddangos ar hyn o bryd yn Oriel Kyffin Williams yn yr arddangosfa O'r Casgliad (09.02.2019 – 07.07.2019) sydd yn rhoi pwyslais ar gasgliad darluniau'r Oriel. Mae pynciau'r ddau ddarluniad wahanol iawn ond mae'r ddau ddarn yn arddangos ei dawn i ddarlunio.